
# Eich Canllaw **Codi Arian**



Estyn gobaith. Estyn llaw.

tenovuscancercare.org.uk

tenovus cancer care gofal canser

# Helo

## a diolch am ymuno â Thîm Gofal Canser Tenovus!

Rydym am sicrhau bod eich ymdrechion codi arian mor hawdd a llwyddiannus â phosibl. Bydd y pecyn hwn yn cynorthwyo eich cynlluniau.

Rydym yn benderfynol o wneud yn siŵr eich bod yn hyderus wrth godi arian. Rydym eisiau eich helpu i gyrraedd eich potensial llawn, oherwydd y ffordd orau i'n helpu i gyrraedd pobl sydd angen ein cymorth yw sicrhau bod codwyr arian penodedig ar gael yn y gymuned.

Mae codi arian dros Gofal Canser Tenovus yn golygu eich bod chi wir yn helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a effeithir gan ganser.

Diolch eto am eich cefnogaeth. Yn syml, ni allem weithredu heboch chi.

## Beth sydd tu mewn...


2 Sut mae'r arian yn helpu

3 Syniadau codi arian

4 Codi arian ar-lein

5 Rhannwch y wybodaeth ddiweddaraf

6 Hyrwyddo'ch ymdrechion

7 Ein calendr codi arian

9 Archebu deunyddiau

10 Cadw popeth yn ddiogel a chyfreithlon

11 Talu'ch arian i mewn













# Sut mae'r arian yn helpu

## Gall byw â chanser achosi pryder a straen. Gallwn ni eich helpu.

Mae Gofal Canser Tenovus yn elusen yng Nghymru sy'n rhoi cymorth, gobaith, a llais i bawb a effeithir gan ganser. Rydyn ni'n deall sut gall canser effeithio ar bob agwedd o fywyd a sut mae'n effeithio ar deuluoedd a ffrindiau hefyd. Mae ein hystod eang o wasanaethau yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth arbenigol i bobl sy'n byw â chanser, a'u hanwyliaid.

Rydyn ni'n ymrwymo i wrando ar brofiadau go iawn bobl a effeithir gan ganser yng Nghymru i gyflawni newidiadau sy'n gwneud gwahaniaeth.

Ynghyd â'n cymuned ysbrydoledig o gefnogwyr, gwirfoddolwyr, a chodwyr arian, rydym yn benderfynol o fod yma i bawb a effeithir heddiw, yfory a thu hwnt.



## *Gall yr arian helpu ni i...*

### Ddarparu triniaethau hanfodol.

Mae ein Hunedau Cymorth Symudol yn gweithredu yn y gymuned i ddod â thriniaethau yn agosach at adref, ac yn cael gwared ar straen a chostau teithio milltiroedd i'r ysbyty.



### Gadw ein nyrsys ar ben arall y ffôn.

Mae ein Llinell Gymorth rhadffôn dan arweiniad nyrsys ac ar gael 365 diwrnod y flwyddyn. Gall ein tîm gynnig cyngor ar ddiagnosis, triniaeth, sgil-effeithiau, ac unrhyw beth arall sydd ar eich meddwl



### Leihau'r baich ariannol.

Gall canser arwain at gostau annisgwyl a phryderon ariannol. Gall ein hymgynghorwyr eich arwain drwy'r budd-daliadau a'r grantiau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn.



### Gadw ein corau'n canu.

Mae ein corau Sing with Us ar gyfer unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan ganser. Mae'n ffordd wych o godi'ch ysbryd, lleihau pryder a bod yn rhan o rywbeth arbennig.

Gallech chi gael gwybod mwy am ein gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl a effeithir gan ganser gan ymweld â **tenovuscancercare.org.uk/cy/cymorth-a-gwybodaeth**

# SYNIADAU CODI ARIAN

Aerobathon
Barbeciw
Bingo
Bore coffi
Bŵt sêl
Canathon
Carioci
Chwilen (gêm 'Beetle')
Cinio canol dydd
Cinio gala
Cwis
Cwrs rwystrau
Cynnig ar record y byd
Cystadleuaeth canu
Cystadleuaeth dartio
Cystadleuaeth talent
Dathliad 'dolig
Dawnsathon
Dawnsio llinell
Disgo
Diwrnod crefft
Diwrnod gwisgo lawr
Diwrnod het wirion
Diwrnod pyjama
Dyfalu nifer y...
Eilliad gwallt
Enwch y tedi
Enwch y tiwn
Golchu ceir
Golff
Gwauathon
Gwerthiant jymbl
Gwifren wib
Gwisg ffansi
Heic
Helfa trysor
Helfa wyau Pasg



















Noson Datrys Dirgelwch
Noson gemau
Noson genod
Noson lawen
Noson maldodi
Noson rasio
Noson Roc a Rôl
Noswaith Jas
Ocsiwn
Paentio wynebau
Parti Calan Gaeaf
Parti Ewrovision
Parti gardd
Parti Santes Dwynwen
Parti te
Pêl
Picnic y gwanwyn
Raffl
Ras hwyl
Rhoi'r gorau i arfer
Sêl anrhegion diangen
Sêl cacennau
Sêl llyfrau
Sêl planhigion
Sialens menter
Sialens prifysgol
Sinema awyr agored
Sioe amrywiaeth
Sioe ffasiwn
Siop dros dro
Swîp
Taith cerdded
Taith cerdded noddedig
Taith cerdded nos
Te prynhawn
Tombola
Yogathon
Zumbathon

# Codi arian ar-lein

Pa bynnag ffordd y byddwch yn penderfynu codi arian, rydym yn argymell sefydlu tudalen ar-lein ar gyfer rhoi arian. Dyma'r ffordd gyflymaf i ledaenu'r neges am eich achos. Mae'n eithaf syml i'w sefydlu a dim ond tua phum munud y mae'n ei gymryd. Hefyd, mae'n cael gwared ar y ffwdan o feddwl sut orau i drosglwyddo'r arian i ni; mae'r cyfan yn awtomatig!

Mae llawer o wefannau codi arian i ddewis ohonynt, mae JustGiving ac Enthuse yn rai poblogaidd. Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram a Tiktok, ynghyd â rhai gwefannau ffrydio fel Youtube a Twitch hefyd yn cynnwys integreiddiadau codi arian - mae cymaint o ddewis! Pa bynnag un a ddewiswch, bydd cyfarwyddiadau i'ch arwain drwy'r broses.

Rydyn ni'n defnyddio Enthuse ar gyfer llawer o'n digwyddiadau, felly os ydych chi wedi cofrestru gyda ni ar gyfer rhywbeth fel ras neu daith gerdded, byddwch chi'n cael eich sefydlu'n awtomatig ar dudalen codi arian i'w rhannu i annog nawdd. Mae'n hawdd i'w ddefnyddio, felly sicrhewch eich bod yn golygu'ch tudalen i'w gwneud yn bersonol i chi a'ch gweithgareddau codi arian.

Bydd angen i chi wneud ychydig o waith i sicrhau bod eich tudalen codi arian yn llwyddiant ond, peidiwch â phoeni, rydym wedi llunio rhai argymhellion defnyddiol i'ch helpu.

## Argymhellion!

### Tynnwch lun

Mae codwyr arian sy'n cynnwys lluniau ar eu tudalen yn codi tua 14% yn fwy! Mae'n creu ymdeimlad bersonol, ac mae'n haws i bobl ymgysylltu â chi. Esgus berffaith i dynnu hun-lun...

### Dywedwch stori

Gall stori ddifyr wneud byd o wahaniaeth, felly rhannwch pam eich bod yn codi arian. Mae angen i bobl wybod pam mae eu rhoddion yn bwysig a'r gwahaniaeth y gallent ei wneud.

### Gosodwch targed

Byddwch yn uchelgeisiol a rhowch wybod faint o arian rydych chi'n anelu ato. Bydd hyn yn eich annog, ond hefyd mae tudalennau sy'n cynnwys targed yn codi 46% yn fwy! Os byddwch chi'n cyrraedd eich targed, gallwch chi wastad ei gynyddu...

### Diweddariadau

Hoeliwch ddiddordeb bobl eraill trwy bostio diweddariadau am eich profiadau. Efallai bydd pobl yn anghofio i gyfrannu, felly bydd diweddariadau rheolaidd yn tynnu eu sylw. Meddyliwch yn greadigol; gallwch ddefnyddio fideos, blogiau a/neu ffotograffau.

### Byddwch yn greadigol

Rhowch rhagor o resymau i bobl gyfrannu arian. Beth am addo gwneud rhywbeth ychwanegol os byddwch chi'n cyrraedd carreg filltir, fel...

*"Mi liwiaf fy ngwallt yn las os dwi'n bwrw'r targed erbyn mis nesaf!"*

### Mwy i ddod...

Mae tua 20% o gyfraniadau yn dod ar ôl y digwyddiad. Diweddarwch eich tudalen i roi gwybod i bawb sut brofiad gawsoch chi a pha mor falch ydych chi o'ch cyflawniad!

# Rhannwch y wybodaeth ddiweddaraf

Rhowch ddiweddariadau rheolaidd i'ch cefnogwyr a'ch dilynwyr gwych fel y gallant ddilyn eich taith. Nid yn unig y mae'n hoelio eu sylw, ond bydd yn rhoi cyfle i chi rannu'ch stori ymhell. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol bod yn greadigol wrth bostio; efallai y bydd pobl yn colli diddordeb os ydych chi'n postio'r un peth bob ychydig ddyddiau.

Dyma rai syniadau i gadw'ch postiadau'n ddiddorol...



## Lluniau

Tynnwch luniau difyr a doniol o'ch gweithgareddau codi arian. Mae pobl yn dwlu ar anifeiliaid, felly tynnwch luniau gyda'ch ffrindiau blewog - mae hynny'n siŵr o ddenu sylw!



## Vlogiau

Postiwch fideos ohonoch chi'ch hun yn ymgymryd â'ch gweithgaredd! Dyma sut mae pobl yn gwybod eich bod chi'n gwneud yr hyn a wnaethoch ei addo. Ceisiwch wneud i'ch cynulleidfa chwerthin, mae pobl yn fwy tebygol o rannu'ch postiadau os ydyn nhw'n ddoniol.

## Podlediadau

Siaradwch am eich ymdrechion codi arian, rhowch wybod i bobl beth rydych chi'n ei fwynhau, ac unrhyw drafferthion rydych chi'n eu cael. Atgoffwch nhw i gyfrannu at eich achos a pham ei fod mor bwysig i chi.




## Diolchiadau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn diolch i bobl am gyfrannu. Rhowch ganmoliaeth ar cyfryngau cymdeithasol; tagiwch nhw yn eich postiadau a diolch iddynt am eu rhodd. Bydd pobl yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd yr amser i ddiolch iddynt a byddant yn fwy tebygol o rannu eich achos â'u cymuned.



## Blogiau

Ysgrifennwch am eich profiadau, rhowch fewnwelediad i'ch taith a'ch meddyliau. Rhannwch eich stori yn fanwl gyda'ch cymuned.

Mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd gyda thechnoleg heddiw, felly ceisiwch feddwl am unrhyw ffyrdd creadigol eraill y gallech ymgysylltu â'ch cefnogwyr. Rhowch reswm da iddynt ddilyn eich taith a gwneud cyfraniad, a'u hannog i rannu eich achos gyda'u ffrindiau a'u teulu hefyd.

Po fwyaf o bobl sy'n gweld eich ymdrechion, y mwyaf o arian y byddwch yn ei godi!

# Ffyrdd eraill o hyrwyddo eich ymdrechion

## Cyfryngau Cymdeithasol

Mae llwyfannau fel Facebook ac Instagram yn caniatáu ichi gyfrannu'n uniongyrchol i elusen. Mae hon yn ffordd gyflym a syml i'ch cefnogwyr gyfrannu at eich achos a bydd yn helpu i ledaenu'r neges i'ch cymuned ar-lein.

Tuedd boblogaidd yw cynnal digwyddiad codi arian ar gyfer eich elusen ddewisol o gwmpas dyddiad eich pen-blwydd, gan ofyn i ffrindiau a theulu gyfrannu yn lle rhoi anrhegion a chardiau. Gosodwch darged a rhannwch eich ymdrechion codi arian gyda'ch ffrindiau a'ch teulu, a gofynnwch iddynt gyfrannu a'i rannu i wneud y mwyaf o'ch potensial codi arian. Byddwch chi'n synnu pa mor gyflym mae'r arian yn cynyddu! Bydd rhai platfformau hefyd yn rhoi arian ychwanegol am ddim i'ch achos dewisol.

Gallwch hefyd tagio ni yn eich postiadau fel y gallwn weld pa bethau gwych rydych wedi'u cynllunio, a gall eich cefnogwyr ymweld â'n prif dudalennau:

**facebook.com/tenovuscancercare**
**@tenovuscancer**
**@tenovuscancer**

**#TîmTenovus**

## Rhodd Cymorth (Gift Aid)

Gall Rhodd Cymorth helpu i roi hwb i'ch ymdrechion codi arian drwy ganiatáu i ni hawlio 25c yn ôl ar bob punt a roddwyd, heb unrhyw gost ychwanegol i chi na'ch noddwyr. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw gofyn i'ch noddwyr a ydyn nhw'n drethdalwr yn y DU ac yn gymwys ar gyfer Rhodd Cymorth. Os ydyn nhw, gallant optio i mewn i Rhodd Cymorth ar-lein neu drwy dicio'r blwch ar eich ffurflen noddi. Os hoffech wybod mwy, ffoniwch ni!

## Rhoddion Cyfatebol

Gwiriwch a yw eich cwmni'n cynnig cynllun Rhoddion Cyfatebol (Matched Giving) a allai ddyblu'r swm rydych chi'n ei godi! Mae banciau fel Barclays, Santander a Lloyds hefyd yn cynnig y cynllun hwn i godwyr arian yn y gymuned leol, felly fe allech chi weld a allant godi arian cyfatebol. Mae'n dreth-effeithlon iddyn nhw ac yn wych ar gyfer eu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol!

## Cysylltwch â'r Wasg

Mae cyfryngau lleol bob amser yn chwilio am straeon diddorol am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Anfonwch ddatganiad byr i'ch papur lleol neu orsaf radio, gan roi gwybod iddynt beth rydych chi'n ei wneud. Os nad ydych yn siŵr sut i fynd ati, gallwn anfon templed atoch.

## Nerth y gymuned

Y tro nesaf y byddwch chi yn eich tafarn leol, clwb cymdeithasol neu fusnes arall, soniwch am eich ymdrechion codi arian. Efallai y bydd pobl leol yn awyddus i helpu, boed hynny trwy gyfrannu gwobrau raffl neu helpu i dalu am gostau digwyddiadau. Os nad ydych chi'n gofyn, ni chewch!

## Lledaenu'r neges

Rydym eisiau eich helpu i wneud y gorau o'ch cyfleoedd, a gallwn ddarparu eitemau amrywiol i helpu i farchnata beth bynnag yr ydych wedi'i gynllunio. Rhagor o wybodaeth ar dudalen 9.

# CALENDR CODI ARIAN

## IONAWR

### *Rhoi'r gorau iddi!*

Dechreuwch y Flwyddyn Newydd mewn ffordd iachach. Beth am roi'r gorau i siocled, creision, coffi neu alcohol - penderfynwch chi. Gofynnwch i bobl roi tra byddwch yn mynd heb rywbeth.

**11eg - Diwrnod Ymwybyddiaeth o Ganserau Llai Goroesadwy**

## CHWEFROR

### *Rhannu cariad*

Dathlwch Ddydd San Ffolant ar y 14eg a rhannwch gariad gyda'ch rhwydwaith! Gallech gynnal raffl gyda gwobrau hamper neu becyn maldod, cynnal cwis yn eich swyddfa, neu bobi cwcis siâp calon i'w gwerthu cyn y diwrnod mawr.

**4ydd - Diwrnod Canser y Byd**

## MAI

### *casgliadau archfarchnad*

Cynhaliwch gasgliad yn eich archfarchnad leol neu'r stryd fawr, a cheisiwch annog ffrindiau a theulu i helpu. Beth am wisgo i fyny am fwy o hwyl?! Dysgwch fwy am gasgliadau ar dudalen 10.

## MEHEFIN

### *Ar eich marciau...*

Clymwch eich lasys a chymryd rhan mewn sialens drostom ni! Gallech gynnal taith gerdded noddedig neu ddigwyddiad nofio eich hun, neu osod targed camau dyddiol ar gyfer y mis a gofyn i bobl eich noddi fel anogaeth.

## MEDI

### *Noson gwis*

Cynhaliwch noson gwis neu sioe gemau yn eich tafarn neu neuadd gymunedol leol. Mae llawer o syniadau am gwestiynau cwis i'w gweld ar-lein, felly gadewch yr holl waith meddwl i'ch gwesteion! Gallech hyd yn oed greu cwis thema ar gyfer pob un o'r gwyliau gwahanol yn ystod y flwyddyn.

## HYDREF

### *Pinc, pinc, pinc!*

Ymunwch â'n llwyth i ddynodi digwyddiadau **GO PINK** ar gyfer Mis Ymwybyddiaeth Canser y Fron. Cynhaliwch barti pinc, neu lliwiwch eich gwallt yn binc i godi ymwybyddiaeth ac arian hanfodol. Yn bwysicaf oll, cofiwch i wirio'ch bronnau. Gall hyn achub eich bywyd.

**Mis Ymwybyddiaeth Canser y Fron**

## MAWRTH

### Iechyd da!

Dathlwch Ddydd Gŵyl Dewi a phopeth Cymreig ar Fawrth 1af a chynhaliwch eich parti Cymreig eich hun, neu gysylltwch ar gyfer un o'n swîps thema Cymru.

## EBRILL

### Gweithgareddau'r Gwanwyn

Dathlwch ddechrau'r Gwanwyn gyda thaith gerdded noddedig, neu ddigwyddiad gwerthu planhigion cymunedol. Neu dathlwch y Pasg gyda helfa wyau cymunedol! Cysylltwch â ni ar gyfer ein swîp gwanwyn.

## GORFFENNAF

### Paneidiau a chacennau

Estynwch wahoddiad i'ch ffrindiau ac anwyliaid am sgwrs, paned a thafell o Fara Brith ac ymunwch â'n hymgyrch codi arian **Tea for Ten** dros yr haf. Mae cynnal digwyddiad Tea for Ten yn hawdd, ac mae pob paned yn cyfri!

## AWST

### Dathliadau'r Haf

Cynhaliwch parti te hwyr, gŵyl gartref neu noson sinema awyr agored eich hun, arwerthiant planhigion neu daith gerdded gyda'r nos.

## TACHWEDD

### Iechyd dynion

Cynhaliwch ddigwyddiad codi arian i godi ymwybyddiaeth o ganserau ymhlith dynion. Beth am ddigwyddiadau ffitrwydd noddedig, cwisiau, diwrnodau gwisgo lawr neu nosweithiau cerddoriaeth!

## RHAGFYR


### Nawdd y Nadolig!

Gwisgwch eich dillad gwlanog gorau a chynhaliwch Ddiwrnod Siwmper 'Dolig! Neu groesawch yr wyl gyda chyngerdd, sioe, parti swyddfa neu ddawns. Mae swîp Nadolig ar gael, rhowch wybod os hoffech un!

# Deunydd codi arian penigamp

Gallwn ddarparu llawer o bethau i’ch helpu gyda’ch ymdrechion codi arian, fel...

- Gobledi / bwcedi casglu
- Crysau T Gofal Canser Tenovus
- Rhôl baner
- Sticeri
- Taflenni gwybodaeth Gofal Canser Tenovus
- Balwnau
- Ffurflenni noddi
- Gemau a swîps




Os hoffech chi unrhyw rai o’r eitemau hyn ar gyfer eich gweithgareddau codi arian, cysylltwch â’n tîm a byddwn yn hapus i helpu. Gallwch anfon e-bost neu ein ffonio gan ddefnyddio’r manylion ar y dudalen nesaf.

Os oes gennych chi ddigwyddiad ar y gweill ac mae angen deunyddiau ychwanegol arnoch, cysylltwch â’n tîm a byddwn yn gwneud ein gorau i’ch cefnogi.

## Deunyddiau marchnata

Gallwn ddarparu deunyddiau dwyieithog i chi i hysbysebu eich ymdrechion codi arian. Mae gennym bosteri a delweddau cyfryngau cymdeithasol cyffredinol yn barod i'ch helpu i ledaenu'r neges.

Ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau mwy, efallai y bydd ein Tîm Marchnata mewnol yn gallu cefnogi gyda deunyddiau pwrpasol; pethau fel posteri, taflenni a thocynnau. Gallwn argraffu deunydd maint A4 ac A3, a darparu ffeiliau digidol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ac e-bost.

Rhowch gymaint o rybudd â phosibl i ni. Mae ceisiadau pwrpasol fel arfer yn cymryd tua phythefnos i’w cynhyrchu unwaith i ni gael yr holl wybodaeth, a chofiwch ystyried amseroedd postio ar ben hyn os oes angen.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw e-bostio neu ein ffonio gan ddefnyddio’r manylion ar y dudalen nesaf, a byddwn yn helpu cymaint ag y gallwn!



# Cadw popeth yn ddiogel a chyfreithlon

## Casgliadau




Mae casgliadau yn ffordd wych o godi arian ac ymwybyddiaeth dros Gofal Canser Tenovus. Fodd bynnag, os ydych yn cynllunio casgliad sy'n digwydd mewn ardal eiddo cyhoeddus, mae'n rhaid i chi gael caniatâd yr Awdurdod Lleol ymlaen llaw a sicrhau'r drwydded briodol.

Os bydd eich casgliad yn digwydd ar dir sy'n eiddo preifat, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw sicrhau caniatâd perchennog y tir neu'r busnes.

## Rafflau a loteriau



Mae rafflau, loteriau a gwobrau hap yn cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaethau felly, cyn cynnal un o'r rhain, cysylltwch â'n Tîm Codi Arian fel y gallwn eich cynghori ar y broses o'u cadw'n gyfreithlon.

**Os ydych yn cynllunio casgliad, raffl neu loteri, cysylltwch â ni!** Mae gennym ganllawiau parod ar gael i'ch helpu i gynllunio gweithgaredd codi arian hwyl, diogel a chyfreithlon.

## Yswiriant, iechyd a diogelwch

Pan fyddwch chi'n cynnal digwyddiad, chi sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn ddiogel i'r holl ymwelwyr. Rydym yn annog pob codwr arian i gynnal asesiad risg cyn y digwyddiad, holi am yswiriant yn y lleoliad a chymryd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Os oes angen help neu gyngor arnoch i gynnal asesiad risg, rydym yn hapus i helpu - cysylltwch â ni!

## Gwarchod data

Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i ofalu am ddata personol pobl, ac ni ddylai unrhyw aelod o'r cyhoedd gael mynediad ato. Dylech drin data fel arian parod, gan ei gadw wedi'i selio mewn amlen a'i gloi i ffwrdd.

## Hylendid bwyd

Byddwch yn ofalus wrth drin bwyd a glynwch at reolau sylfaenol ar gyfer paratoi, storio a choginio'n ddiogel. Cofiwch nodi unrhyw alergenau sydd wedi'u cynnwys yn y bwyd rydych chi'n ei ddarparu.

Ffeindiwch ragor o wybodaeth ar **food.gov.uk**



## *Cofiwch...*

Er mwyn sicrhau digwyddiad llwyddiannus, cynlluniwch yn ofalus ac ymhell ymlaen llaw. Nid oes angen i'ch ymdrechion codi arian fod yn gymhleth i fod yn llwyddiannus, ond mae angen iddynt fod yn hwyl!

# Talu'ch arian i mewn

Rydych chi wedi gwneud y gwaith caled ac wedi cyflawni eich ymdrechion codi arian! Nawr mae angen trosglwyddo'r arian atom ni fel y gallwn ei ddefnyddio i helpu pobl a effeithir gan ganser.

Mae pedair ffordd hawdd o anfon yr arian rydych chi wedi'i godi...

## Ar-lein

Ewch i **tenovuscancercare.org.uk/donate** a chilicio **'Make a one off donation'** a rhoi eich manylion. eidiwch ag anghofio rhoi gwybod i ni sut y gwnaethoch godi'r arian, yn yr adran 'what inspired you'.

## Drwy'r banc

Talwch yr arian yn uniongyrchol i gyfrif banc Gofal Canser Tenovus. Ein manylion:

**Banc: HSBC**
**Cod Didoli: 40 - 16 - 15**
**Enw Cyfrif: Tenovus Cancer Care**
**Rhif Cyfrif: 61069578**

Er mwyn adnabod eich rhodd yn hawdd, nodwch gyfeirnod fel: 'Joe Bloggs - Hanner Marathon Caerdydd'. Anfonwch e-bost atom hefyd drwy'r cyfeiriad isod i roi gwybod i ni am eich rhodd ddiweddar.

## Dros y ffôn

Gallwch dalu'r arian i mewn gyda cherdyn credyd neu ddebyd.
Ffoniwch ni ar y rhif isod a byddwn yn falch o dderbyn eich rhodd!

## Drwy'r post

Gallwch anfon siec, yn daladwy i Gofal Canser Tenovus, yn y post i:

**Tîm Codi Arian, Gofal Canser Tenovus, Cwrt Jones, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1BR**

Cofiwch gynnwys rhywfaint o wybodaeth fel ein bod yn gwybod o ble y daeth, ac am ba bwrpas.

# Cysylltwch â ni

Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi, felly cysylltwch â'n Tîm Codi Arian cyfeillgar os oes angen unrhyw beth arnoch chi!

fundraising@tenovuscancercare.org.uk
029 2076 8850

# Diolch am ein dewis ni!

Ni allem wneud yr hyn a wnawn heb bobl wych fel chi.

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Yn codi arian ar gyfer Gofal Canser Tenovus   Elusen Gofrestredig Rhif 1054015

tenovuscancercare.org.uk

tenovus cancer care gofal canser